



## Sesiynau Briffio Saith Munud: Canllawiau ASB

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch [cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk](mailto:cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk)

Rhyddhaodd y Swyddfa Gartref Ganllaw Statudol Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym Mehefin 2022

[www.gov.uk/government/publications/anti-social-behaviour-crime-and-policing-bill-anti-social-behaviour](http://www.gov.uk/government/publications/anti-social-behaviour-crime-and-policing-bill-anti-social-behaviour)

### Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Hwylus (E-PSPO)

- Cyflwynwyd drwy Ddeddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 i ddiogelu rhag niwed gan brotestiadau mewn ysgolion, canolfannau brechu a safleoedd Profi, Olrhain a Diogelu yng Nghymru.
  - Rhaid i'r Cyngor ymgynghori gyda phrif swyddog yr heddlu a chorff plismona lleol, yr ysgol berthnasol neu awdurdod GIG, ac unrhyw un y mae'r Cyngor yn credu sy'n berthnasol (nid oes angen ymgynghoriad llawn ymlaen llaw).
    - Gall fod mewn lle am chwe mis.
    - Mae mynd yn groes iddo yn drosedd.

#### Troseddau Casineb

- Y diffiniad yn cynnwys prawf o elyniaeth.
- Cysylltiad rhwng Ymddygiad Gwrthgymdeithasol rhai troseddau casineb.

#### Adferiad Cymunedol

- Adran wedi'i ychwanegu i amlygu pwysigrwydd ystyried cyfiawnder adferol wrth ddefnyddio'r Adferiad Cymunedol ac egluro ei ddefnydd.

#### Pwerau gwasgaru

- Gellir ei ddefnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio er mwyn lleihau brawychu pleidleiswyr.

#### Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol

- Materion amgylcheddol, megis graffiti, sbwriel a niwsans sŵn.
- Rhybudd ysgrifenedig i gynnwys gwybodaeth gswllt ar gyfer yr awdurdod sy'n ei ddsbarthu, a dylai fod yn bwrpasol.
- Ystyried os oes angen ystorfa a rennir o Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol a llythyrau rhybuddio er mwyn osgoi dyblygu.
- Apeliadau i gynnwys darpariaeth i dderbynydd ymholi am sail y rhybudd ysgrifenedig.

#### Diamddiffynedd

- Efallai bydd angen i wasanaethau iechyd lleol fod yn rhan yn y Sbardun Cymunedol.
- Dylai iechyd fod yn rhan o adolygiadau Sbardun Cymunedol sy'n cynnwys dioddefwyr gyda diamddiffynedd mewn perthynas ag iechyd.

#### Sbardun Cymunedol

- Nid yw Sbardun Cymunedol yn gŵyn ond yn gyfle arall i helpu dioddefwyr.
- Sut all y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fod yn rhan o'r broses Sbardun Cymunedol (nid mewn deddfwriaeth).

